**Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad**
—
**Legislation, Justice and Constitution Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddDCC@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddDCC
0300 200 6565
—
**Senedd Cymru**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddDCC@senedd.cymru
senedd.wales/SeneddLJC
0300 200 6565

Y Gwir Anrhydeddus Elin Jones AS
Cadeirydd y Pwyllgor Busnes

12 Ionawr 2026

Annwyl Lywydd

Memoranda Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol: Y Bil Oedolion Terfynol Sâl (Diwedd Oes)

Yn gynharach heddiw fe wnaethom ystyried y memorandwm uchod (Memorandwm Rhif 3), a osodwyd gerbron y Senedd ar 23 Rhagfyr 2025.

Mae paragraff 4 o Femorandwm Rhif 3 yn tynnu sylw at y canlynol:

- Rhwng 14 Tachwedd a 18 Rhagfyr 2025, cyflwynwyd 1,159 o welliannau i'r Bil yn y Cyfnod Pwyllgor yn Nhŷ'r Arglwyddi;
- disgwylir mwy o welliannau wrth i'r Bil barhau â'i gynnydd;
- mae noddwr y Bil yn Nhŷ'r Arglwyddi, yr Arglwydd Falconer, wedi cyflwyno 36 o welliannau ac mae pump ohonynt wedi'u nodi fel rhai sy'n ymwneud â materion datganoledig (ac maent yn destun Memorandwm Rhif 3).

Fel ag y mae, trefnwyd bod y cynnig cydsyniad deddfwriaethol yn cael ei drafod ar 20 Ionawr 2026. Mae hyn yn gadael ychydig iawn o amser inni gynnal gwaith craffu effeithiol ar Femorandwm Rhif 3 ac mae hynny'n destun pryder sylweddol inni, o ystyried arwyddocâd y ddeddfwriaeth hon.

Mae'r pryder hwn yn cael ei ddwysáu oherwydd cynnwys Memorandwm Rhif 3 a rhai bylchau a gwrthgyferbyniadau ymddangosiadol sydd ynddo, y byddai'n dda cael eglurder pellach yn eu cylch. Mae'r rhain yn cynnwys y canlynol:

- Nid yw Memorandwm Rhif 3 yn cadarnhau pa asesiadau y mae Llywodraeth Cymru wedi'u gwneud mewn perthynas ag unrhyw un o'r 1,154 o welliannau eraill i'r Bil sydd wedi'u cyflwyno ar hyn o bryd, nac a yw Llywodraeth Cymru o'r farn y gallai unrhyw un o'r gwelliannau hyn wneud darpariaeth ynghylch materion datganoledig. Mae hefyd yn

nodedig nad yw Llywodraeth Cymru wedi cyfeirio at unrhyw un o'r gwelliannau eraill a gyflwynwyd sydd hefyd yn cynnig diwygio'r cymalau sy'n destun Memorandwm Rhif 3;

- yn gysylltiedig â'r pwynt hwn, mae paragraff 5 o Femorandwm Rhif 3 yn disgrifio'r pum gwelliant perthnasol fel y rhai "fwyaf tebygol o ymwneud â materion datganoledig" [ein pwyslais ni], a allai awgrymu bod Llywodraeth Cymru yn cydnabod y bydd gwelliannau ychwanegol, nad ydynt wedi'u cynnwys yn y memorandwm, yn ystyried materion datganoledig. Fodd bynnag, mae paragraff 6 yn drysu'r darlun ymhellach drwy ddatgan fel a ganlyn: "Disgrifir y gwelliannau sy'n gwneud darpariaethau sy'n rhoi sylw i faterion datganoledig ym mharagraffau 13 i 16 isod", sy'n ddatganiad mwy pendant.

Rydym yn cydnabod y bydd y ddadl ar y cynnig cydsyniad deddfwriaethol yn ymdrin ag egwyddorion o ran a ddylai deddfwriaeth ar farw â chymorth ymestyn i Gymru. Fodd bynnag, mae hefyd yn bwysig bod yr Aelodau'n glir ynghylch y darpariaethau penodol yn y Bil y gofynnir iddynt gydsynio iddynt (efallai y byddai rhinwedd mewn cynnwys y wybodaeth honno yn y cynnig yn absenoldeb eglurder yn y memoranda). Yn yr un modd, o ystyried nad yw'r gwelliannau sy'n destun Memorandwm Rhif 3 wedi cael eu hystyried yn ffurfiol gan yr Arglwyddi eto (gweler paragraff 5 o Femorandwm Rhif 3), nid yw'n glir a fyddant wedi cael eu gwaredu erbyn 20 Ionawr 2026, pan y disgwylir cynnal y ddadl ar y cynnig cydsyniad deddfwriaethol perthnasol.

Am y rhesymau hyn, rydym yn gofyn am osod dyddiad cau ar gyfer adrodd sy'n rhoi digon o amser inni gynnal gwaith craffu ar oblygiadau Memorandwm Rhif 3, gydag oedi cyfatebol i ddyddiad y ddadl ar y cynnig cydsyniad deddfwriaethol. Wrth wneud y cais hwn, nodwn bod amser wedi'i neilltuo ar gyfer gwaith craffu ar y Bil yn Nhŷ'r Arglwyddi y tu hwnt i ddyddiad y diddymiad, er ein bod yn cydnabod y gallai fod yn destun newid.

Rwy'n anfon copi o'r llythyr hwn at Peter Fox AS, Cadeirydd y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol.

Yn gywir,

Mike Hedges

Mike Hedges
Cadeirydd